chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase



# Addysgeg Dysgu ac Addysgu








**Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Addysgeg Dysgu ac Addysgu

**Cynulleidfa** Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

**Trosolwg** Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n hanfodol ar gyfer dysgu ac addysgu ar draws y Cyfnod Sylfaen.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:


Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk


**Copïau ychwanegol** Ar gael drwy gysylltu:

Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk


Cyf: AC/GM/0840
ISBN: 9780750445498
Ionawr
A-EAC-02-01-041/AB



© Hawlfraint y Goron 2008

# Cynnwys


**Cefndir** 3

**Cyflwyniad** 4

**Dysgu** 5

Natur gyfannol dysgu

Adeiladu ar ddysgu blaenorol

Diddordebau plant

Astudiaeth achos: Rwy'n caru trenau

Rôl chwarae wrth i blant ddysgu

Y plentyn fel dysgwr

Awydd i ddysgu

Arddulliau dysgu

Gwahaniaethau rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal

Cynnydd datblygiadol

**Addysgu** 12

Rôl yr ymarferydd

Cynllunio

Enghraifft o gynllunio 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd – cynllunio tymor canolig'

Cynllunio ar gyfer cynnydd

Astudiaeth achos: Gwaith cynllunio plentyn

Rhoi trefn ar yr amgylchedd dysgu

Astudiaeth achos: Cysylltu cylch meithrin ag uned feithrin mewn ysgol gynradd

Arsylwi

Cynorthwyo'r dysgwr

Addysgu uniongyrchol

Strategaethau addysgu

Partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr

Rheoli'r broses ddysgu

**Addysgeg yn y Cyfnod Sylfaen** 26
Astudiaeth achos: Y daith

**Damcaniaethwyr a seicolegwyr addysgol** 28

**Meysydd ymchwil/damcaniaethau dysgu cyfredol** 32

**Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol** 36

**Geirfa'r Cyfnod Sylfaen** 38

**Cydnabyddiaethau** 44

# Cefndir

Roedd y cynigion yn nogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu: Cyfnod Sylfaen 3–7 oed* yn cynnwys datblygu cwricwlwm a oedd yn cryfhau ac yn cysylltu'r egwyddorion a'r arfer yn nogfen ACCAC *Canlyniadau Dymunol i Ddysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol* (2000) â'r rhaglenni astudio a'r datganiadau ffocws yng Nghyfnod Allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol, a hynny er mwyn creu cwricwlwm cyfoethog dan saith Maes Dysgu i blant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dadlau o blaid meithrin a hybu cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysg.

Mae ymagwedd Llywodraeth Cynulliad Cymru at addysg a dysgu gydol oes wedi'i nodi yng nghyd-destun ehangach ein gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyffredinol.

Mae gennym saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y nodau hyn fydd yn sail i holl weithgareddau'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS).

Rydym yn anelu at sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

- yn cael dechrau da, ynghyd â'r seiliau gorau posibl ar gyfer tyfu a datblygu yn y dyfodol
- yn cael cyfle i fanteisio ar amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg, hyfforddiant a dysgu, gan gynnwys cyfleoedd i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol hanfodol
- yn cael mwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl, gan sicrhau hefyd nad ydyn nhw yn cael eu cam-drin na'u herlid ac nad oes unrhyw un yn camfanteisio arnyn nhw
- yn cael manteisio ar amrediad o weithgareddau chwarae, gweithgareddau hamdden, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol
- yn cael gwrandawiad, yn cael eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod
- yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi eu lles corfforol ac emosiynol
- heb fod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw fath o dlodi.

# Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n hanfodol ar gyfer dysgu ac addysgu ar draws y Cyfnod Sylfaen. Mae'n ategu *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, y canllawiau sy'n ategu'r saith Maes Dysgu, *Chwarae/Dysgu Gweithredol: Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed, Arsylwi ar Blant* a'r *Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru*.

Nod y canllawiau yw cynorthwyo ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen i ddeall addysgeg dysgu ac addysgu a sut i'w gweithredu. Mae *Adeiladu'r Cyfnod Sylfaen; Cynllun Gweithredu* (LlCC, 2006) yn galw ar sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon a cholegau addysg bellach i sicrhau bod cyrsiau'n cynnwys cyfeiriadau priodol at ddatblygiad plentyn, addysgeg dysgu ac addysgu, cynllunio ac asesu. Bydd y canllawiau hefyd yn ddefnyddiol i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i weithio gyda phlant ifanc.

Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau/ysgolion y Cyfnod Sylfaen mewn perthynas ag addysgeg dysgu ac addysgu.

# Dysgu

Mae Fframwaith y Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio pwysigrwydd:



- hawl pob plentyn i gael cyfle cyfartal ac i fanteisio ar gwricwlwm eang, cytbwys, perthnasol a gwahaniaethol sy'n diwallu ei anghenion datblygiadol
- effaith profiadau plant cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol ar eu datblygiad dilynol
- cysylltiadau cadarnhaol rhwng y cartref a darparwyr gofal ac addysgu, a gwerthfawrogiad o rieni/gofalwyr fel addysgwyr cyntaf y plant.

**Mae pob agwedd ar ddysgu wedi'u cydgysylltu ar gyfer plant ifanc.**

Y Maes Dysgu sy'n ymwneud â Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol sy'n sail i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r Maes Dysgu hwn yn canolbwyntio ar ddatblygu cydberthnasau â chyfoedion ac oedolion, pwysigrwydd cymhelliant, dyfalbarhad, hunan-barch ac awydd cadarnhaol i ddysgu. Mae gan bob un o'r rhain ran bwysig i'w chwarae yn nysgu a datblygiad plant.

Ystyrir bod grymuso yn gysyniad canolog fel bod plant mewn sefyllfa well i reoli eu bywydau yn well er mwyn gwella eu hunanhyder, medrusrwydd a hunan-barch.

## Natur gyfannol dysgu

Mae pob agwedd ar ddysgu wedi'u cydgysylltu ar gyfer plant ifanc; dydyn nhw ddim yn rhannu eu dysgu a'u dealltwriaeth yn feysydd o'r cwricwlwm. Mae'r saith Maes Dysgu yn ategu ei gilydd. Yn ystod un gweithgaredd efallai y bydd plentyn yn caffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth mewn mwy nag un Maes Dysgu; er enghraifft, efallai y bydd sgiliau rhif, iaith a sgiliau corfforol plentyn yn datblygu wrth ganu cân actol. Hefyd, drwy fwynhau'r gweithgaredd, caiff awydd emosiynol plant i ddysgu ei hyrwyddo.

## Adeiladu ar ddysgu blaenorol

**Bydd plant yn dysgu o'r adeg maen nhw'n cael eu geni a bydd eu profiadau cynharaf yn effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad yn y Cyfnod Sylfaen.**

Wrth gymell plant i ddysgu, mae'n hollbwysig bod y cwricwlwm yn ymateb i'w hanghenion a'u diddordebau ac yn adeiladu ar brofiadau blaenorol. Bydd plant yn dysgu o'r adeg maen nhw'n cael eu geni a bydd eu profiadau cynharaf yn effeithio ar eu dysgu a'u datblygiad yn y Cyfnod Sylfaen. Mae ffordd o gyflwyno'r cwricwlwm sy'n dechrau gyda phlant yn sicrhau bod dysgu yn ystyrlon iddyn nhw ac yn eu hannog i ddysgu.

## Diddordebau plant

Dylai gweithgaredd roi digon o ysgogiad a her i ddal sylw plant a'u cynnwys yn y gweithgaredd. Cyflwynodd yr Athro Laevers (*A Process-Oriented Child Monitoring System,* 1993) y term Saesneg 'involvement' i ddisgrifio'r modd y bydd plant yn canolbwyntio'n llwyr pan fyddan nhw wedi ymgolli mewn gweithgaredd sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Bydd yr awydd i ddysgu a'r cymhelliant i ddyfalbarhau gyda gweithgaredd dysgu yn dibynnu ar effaith yr ysgogiad i ddysgu, a allai fod yn wahanol i bob plentyn. Yn dibynnu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol gall plentyn benderfynu ei fod am gymryd rhan mewn gweithgaredd penodol neu beidio, ond gall ddewis diddordeb gwahanol os caiff y cyfle. Mae hyn yn dderbyniol oherwydd gellir cyflawni'r un canlyniadau mewn ffyrdd gwahanol.



**Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut mae cariad Osian at drenau wedi parhau drwy'r dosbarth meithrin, y dosbarth derbyn a Blwyddyn 1. Fel y dangosir, wrth i Osian ddatblygu, mae ei ymwneud â threnau ynghyd â'i gydberthynas â'i gyfoedion wedi newid.**

## Rwy'n caru trenau

**Noder:** Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i hysgrifennu yn y person cyntaf gan fod y testun wedi'i gymryd o adroddiad parhaus Osian i'w rieni/gofalwyr a gyflwynir ar ffurf stori.

Dosbarth meithrin – Bob bore dwi'n chwarae gyda'r set trenau. Dwi'n caru trenau ac yn gwybod llawer amdanyn nhw. Weithiau mae hi'n anodd i fi rannu'r trenau!

Dosbarth derbyn – Wel, cefais amser wrth fy modd heddiw! Treuliais y bore cyfan yn yr ardal graffeg. Gwnes drên hir, hir gyda fy ffrind. Fe wnaethon ni dynnu llun cerbyd ar bob darn o bapur a'u gludo wrth ei gilydd. Mae'n wych!

Blwyddyn 1: Chwefror – Dwi'n dal i fwynhau chwarae gyda threnau yn ystod yr awr euraidd ac mae fy ffrindiau bob amser yn dweud fy mod yn hoffi trenau! Mae Harry a Sulmain a finnau wedi bod yn adeiladu ffordd gyda'r blociau pren mawr. Dwi'n hoffi rasio ceir a threnau nawr!

Blwyddyn 1: Mehefin – Roedden ni i fod i weithio mewn grwpiau i ddylunio a chreu gêm fwrdd yn yr ardal rhif, ond dwi wedi dylunio fy ngêm fwrdd fy hun gan nad oedd unrhyw un arall am wneud trac trên fel fi! Dwi wedi rhifo'r trac ac wedi adeiladu pontydd fel i greu llwybrau cyflymach i'r trenau! Dwi ddim yn gallu aros i roi'r gêm ar gardfwrdd a'i chwarae gyda fy ffrindiau!

## Rôl chwarae wrth i blant ddysgu

**Drwy chwarae/dysgu gweithredol gall plant ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n gymwys ar draws y saith Maes Dysgu.**

Mae hawl i amser chwarae addysgol/dysgu gweithredol strwythuredig yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm i bob plentyn 3 i 7 oed (gweler y canllawiau *Chwarae/Dysgu Gweithredol: Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed*).

Diben chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn symbylu, yn ysgogi ac yn cefnogi plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, sgiliau caffael iaith/cyfathrebu a chanolbwyntio. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol, dangos ymwybyddiaeth/defnydd o'r hyn a ddysgwyd yn ddiweddar, sgiliau a chymwyseddau ac mae'n atgyfnerthu dysgu.

Mae chwarae wedi'i gynllunio'n dda:

- yn cefnogi'r broses o ddatblygu ffordd plant o feddwl
- yn galluogi'r plant i fynegi eu syniadau yn greadigol gan ddefnyddio eu dychymyg
- yn hyrwyddo datblygiad ieithyddol a sgiliau cyfathrebu drwy amrywiaeth o gyfryngau
- yn galluogi plant i ddatblygu a chymhwyso sgiliau rhif
- yn cyflwyno plant i TGCh
- yn helpu plant i wneud synnwyr o'r byd o'u hamgylch ac i ddatrys problemau
- yn cynnwys plant wrth ddysgu dan do ac yn yr awyr agored.

Drwy chwarae/dysgu gweithredol gall plant ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy sy'n gymwys ar draws y saith Maes Dysgu. Mae dysgu drwy gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau dysgu profiadol yn sicrhau sylfaen ar gyfer parhad a dilyniant. Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* yn amlygu dilyniant sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif.

## Y plentyn fel dysgwr

Mae plant yn dangos chwilfrydedd a diddordeb naturiol yn y byd o'u hamgylch ac yn mwynhau archwilio ac ymchwilio. Mae plant yn dysgu mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

Mae profiadau synhwyraidd yn chwarae rhan fawr yn y ffordd y mae plant ifanc yn llunio cysyniadau. Drwy ailadrodd profiad dysgu maen nhw'n datblygu cynllun neu batrymau o feddyliau sy'n cael eu cryfhau nes iddyn nhw allu gwneud cysylltiadau.

Mae chwarae gweithredol, a chwarae drwy brofiadau yn galluogi plant i:

- ddatblygu, ymarfer, ailadrodd ac atgyfnerthu sgiliau newydd
- archwilio, ymchwilio, datrys problemau a darganfod pethau
- efelychu, actio rolau
- defnyddio dychymyg a bod yn greadigol
- cyfleu eu syniadau drwy amrywiaeth o gyfryngau fel deunyddiau adeiladu, tynnu llun, paentio neu ysgrifennu, neu drwy symudiad fel ystum, drama neu ddawns.

Mae rhyngweithio cymdeithasol a siarad/cyfathrebu yn helpu plant i ddysgu gydag eraill a dysgu ganddyn nhw. Maen nhw'n dysgu i gymryd eu tro ac wrth i'w sgiliau geirfa ac iaith ddatblygu gallan nhw siarad am eu profiadau a chyfathrebu gydag eraill mewn gweithgareddau grŵp.

## Awydd i ddysgu

Mae teimladau plentyn yn effeithio ar ei awydd i ddysgu; er enghraifft, os yw plentyn yn hapus, yn cael digon o faeth, yn fodlon ac wedi ymlacio bydd yr effaith ar ddysgu yn gadarnhaol.

Pan fydd gweithgareddau yn ddymunol ac yn hwyl yn ogystal â bod yn ddigon heriol, bydd plant yn ymateb drwy ddangos diddordeb. Mae plant hefyd yn datblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu pan maen nhw'n cael canmoliaeth ac anogaeth sy'n cydnabod eu hymdrechion a gwerth eu gweithgareddau chwarae.

## Arddulliau dysgu

**Er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu'n effeithiol mae'n rhaid i'r profiadau dysgu fod yn ystyrlon i'r plant.**

Mae gan blant unigol wahanol arddulliau dysgu neu ddewis ffyrdd o ryngweithio gyda'r amgylchedd. Gellir gwella dysgu drwy ystyried arddulliau dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau pan maen nhw'n cael symbyliad gweledol, bydd eraill yn dysgu orau gyda symbyliad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu ac a ydy'r unigolyn yn gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp yn effeithio ar arddulliau dysgu unigol. Er enghraifft, yn ystod datblygiad plant bydd eu dealltwriaeth a'r modd y maen nhw'n archwilio agweddau, priodoleddau, gwerthoedd, teimladau ac emosiynau yn dylanwadu ar eu hawydd i ddysgu.

Ymysg yr enghreifftiau o ddylanwadau cadarnhaol ar ddysgu dan do ac yn yr awyr agored mae:



- amgylchedd sy'n rhoi ysgogiad gweledol dan do ac yn yr awyr agored
- cyfleoedd ar gyfer adegau gweithgar a thawel dan do ac yn yr awyr agored
- cydbwysedd o weithgareddau sy'n cael eu harwain gan ymarferydd a gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan blant
- cyfleoedd ar gyfer dysgu drwy brofiadau a thrafodaeth fyfyriol
- chwarae cerddoriaeth gefndirol wedi'i dewis yn ofalus fel ysgogiad neu ffordd o dawelu plant.

Er mwyn sicrhau bod plant yn dysgu'n effeithiol mae'n rhaid i'r profiadau dysgu fod yn ystyrlon i'r plant. Dylid rhoi cyfleoedd iddyn nhw wneud dewisiadau yn ôl eu hoff arddull dysgu, neu gyfuniad o'r rhain.

## Gwahaniaethau rhwng y rhywiau a chyfle cyfartal

Mae tystiolaeth o ymchwil niwrowyddonol yn awgrymu bod gwahaniaethau rhwng strwythur a swyddogaeth ymennydd bechgyn a merched yn arwain at wahaniaethau o ran arddulliau dysgu. Yn aml bydd bechgyn yn ymateb yn fwy parod i heriau dysgu gweithredol sy'n cynnwys chwarae corfforol a bydd merched yn aml yn fwy hoff o weithgareddau tawelach sy'n galw am fwy o ryngweithio cymdeithasol.

Er bod polisïau cyfle cyfartal wedi llunio'r ffordd mae'r un cyfleoedd yn cael eu rhoi i bob plentyn, mae lle i ystyried p'un a yw unigolion yn cyflawni'r canlyniadau gorau mewn perthynas â gallu neu p'un a ellid darparu gweithgareddau mwy addas i ddiwallu eu hanghenion.

## Cynnydd datblygiadol

**Mae'r cyfnod rhwng genedigaeth a 7 oed yn gyfnod lle ceir twf a datblygiad aruthrol.**

Mae'r cyfnod rhwng genedigaeth a 7 oed yn gyfnod lle ceir twf a datblygiad aruthrol. Er y bydd pob plentyn yn dilyn yr un continwwm o ran datblygiad, byddan nhw'n gwneud hynny ar gyflymder gwahanol iawn. Gellir cael amrywiadau sylweddol ar hyd y continwwm datblygu a dysgu o fewn grŵp nodweddiadol ar unrhyw oedran; er enghraifft, efallai na fydd plentyn y mae ei sgiliau corfforol wedi datblygu'n helaeth, o reidrwydd, wedi datblygu gystal yn wybyddol, yn gymdeithasol neu'n emosiynol. Hefyd mae angen bod yn ymwybodol o achosion pan na fydd datblygiad plentyn yn dilyn un patrwm clir neu os bydd allan o drefn; gan nodi'r angen am asesiad anghenion ychwanegol.

Oherwydd yr amrywiaeth o wahaniaethau unigol mewn datblygiad mae'n bwysig bod arsylwi yn llywio gwaith cynllunio er mwyn diwallu anghenion pob plentyn yn briodol. Bydd ymarferwyr sylwgar yn sensitif i unrhyw anawsterau corfforol, synhwyraidd, emosiynol, cymdeithasol neu wybyddol sy'n awgrymu y gallai fod gan blentyn anghenion ychwanegol y gall fod angen cymorth arbennig ar eu cyfer.

(Mae *Ar Drywydd Dysgu* yn rhoi gwybodaeth fanwl am asesu ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau dysgu dwys ac anableddau ychwanegol.)

# Addysgu

**Yn y Cyfnod Sylfaen mae'n hanfodol bod gan bob ymarferydd wybodaeth/dealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant.**

Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen mae angen sicrhau'r dull addysgu mwyaf addas ar gyfer y dysgu gweithredol sy'n nodweddu'r cyfnod addysg hwn a'r ffyrdd niferus y gall plant ddysgu.

## Rôl yr ymarferydd

Mae'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu yn ganolog i ddull gweithredu'r Cyfnod Sylfaen, ac mae'r plentyn yn ganolbwynt i'r dysgu a'r addysgu. Dylid cymryd gofal i sicrhau bod y dull addysgu a ddefnyddir yn seiliedig ar anghenion y plentyn ym mhob Maes Dysgu a datblygu.

Yn y Cyfnod Sylfaen mae'n hanfodol bod gan bob ymarferydd wybodaeth/dealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant. Dylid rhoi pwyslais ar ddysgu fel continwwm y bydd angen ei ystyried wrth gynllunio cwricwlwm sy'n diwallu anghenion y plentyn unigol ac yn hwyluso cynnydd.

Bydd bod yn sensitif i'r rhwystrau sy'n atal cynnydd y plentyn unigol yn galluogi'r ymarferydd i nodi unrhyw strategaethau ymyrryd y gallai fod eu hangen.

## Cynllunio

Mae'n hanfodol cael parhad wrth gynllunio ar gyfer datblygiad plant. Fel y cyfryw, mae'n bwysig ystyried cefndir plant a'u profiadau dysgu cynnar gartref fel dechreubwynt wrth gynllunio. Gellir gwneud hyn drwy siarad â rhieni/gofalwyr y plant fel y disgrifir isod.

> 'Pan fydd y plant yn dechrau yn y cylch chwarae byddwn yn gofyn i'r rhieni/gofalwyr am ddarlun cyffredinol o ddatblygiad y plentyn hyd yma, ei hoffterau, ymwybyddiaeth o liw ac ymwybyddiaeth gymdeithasol (er enghraifft, p'un a yw'r plentyn wedi bod mewn grŵp rhiant/gofalwr a phlentyn).'

Bydd hefyd angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r hyn a addysgwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol yn ogystal â chyflawniad/cyrhaeddiad pob plentyn unigol.

Bydd angen i’r ymarferydd gynllunio a pharatoi adnoddau ar gyfer amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a gweithgareddau sy’n cwmpasu pob Maes Dysgu a phob math o chwarae. Bydd y cynllunio yn seiliedig ar *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* ac ar ddatganiadau polisi a dogfennau cwricwlaidd y lleoliad/ysgol.

Efallai y bydd gwaith cynllunio ymarferydd yn gyfannol, gan gymryd dull thematig o weithredu ar draws pob Maes Dysgu. Gellir cynnwys syniadau plant wrth gynllunio pynciau/prosiectau, er enghraifft, drwy eu cynnwys mewn trafodaethau ac wrth fapio meddyliau. Bydd thema neu bwnc sydd o ddiddordeb i’r plant yn eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth drwy brofiadau dysgu sy’n ystyrlon iddyn nhw.

Efallai y bydd ymarferwyr am wneud cynlluniau ar wahân ar gyfer pob Maes Dysgu. Fodd bynnag, mae’n anochel y bydd cysylltiadau rhwng Meysydd Dysgu gan fod cysylltiad rhwng dysgu a datblygiad plant.



## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd – cynllunio tymor canolig

| Deilliannau dysgu posibl | Cyfleoedd a gweithgareddau a gynlluniwyd | Adnoddau | Cyfleoedd i asesu |
|---|---|---|---|
| **Byd Materol**<br>Gallu archwilio deunyddiau a dechrau deall eu diben a'u defnydd. | Gwneud tyllau mewn cerdyn, defnyddio peiriant tâp gludiog, defnyddio piniau hollt, clipiau papur, styffylwyr, ac ati, archwilio unrhyw offer a ddefnyddir yn yr ardal gelf. | Ardal gelf sy'n cynnwys offer llawn. | Arteffactau neu ddeunyddiau a gaiff eu creu gan ddefnyddio offer.<br><br>Tystiolaeth storïol o bwrpas plant dros ddefnyddio deunyddiau ac offer penodol. |
| | Gwneud siapiau gyda chlai modelu a thoes. | Clai modelu a thoes. | |
| | Rhewi dŵr a thoddi rhew. | Rhew. | |
| | Gwneud siapiau gyda thywod gwlyb. | | |
| | Tynnu, ymestyn a gwasgu amrywiaeth eang o bapur, cerdyn a ffabrig.<br><br>Rholio, taro a theimlo darnau o goed sydd wedi eu torri. | Elastig, cerdyn, ac amrywiaeth eang o bapurau, papur sidan, crêp, cerdyn rhychiog, ffabrig y gellir ei ymestyn, ffabrig ffwr, darnau o goed sydd wedi eu torri, ac ati. | |

| Deilliannau dysgu posibl | Cyfleoedd a gweithgareddau a gynlluniwyd | Adnoddau | Cyfleoedd i asesu |
|---|---|---|---|
| **Byd byw**<br>Gallu datrys problem gan ddefnyddio profiadau go iawn a rhagweld canlyniadau posibl. | Datblygu sgiliau cynllunio er mwyn gallu penderfynu eu hunain pa ddeunyddiau y gallen nhw eu defnyddio a sut maen nhw'n rhagweld canlyniadau posibl eu chwarae. | Amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau. | Tystiolaeth storïol o ragfynegiadau plant a'u heglurhad o ganlyniadau. |
| | Mewn grwpiau bach dechrau gyda sefyllfaoedd 'Beth os…'<br><br>Gwthio peli i lawr tiwbiau hir.<br><br>Adeiladu gyda deunyddiau adeiladu amrywiol, rhai y byddan nhw'n dod o hyd iddyn nhw a rhai wedi'u cynhyrchu'n fasnachol. | Blociau adeiladu, tiwbiau plastig, peli a thiwbiau cardfwrdd hir. | |

Dylai Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol fod yn rhan hanfodol o waith cynllunio ar draws pob Maes Dysgu p'un a yw cynllunio ymarferydd yn gyfannol, ar wahân neu'n cynnwys cyfuniad o ddulliau. Dylid cymryd gofal i sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddatblygu hunan-barch, hyder, hunan-reolaeth ac annibyniaeth, i wrando ac i gyfathrebu mewn grwpiau bach a grwpiau mwy. Dylai gwaith cynllunio ymgorffori cyfuniad o ddulliau gweithredu sy'n sicrhau yr ystyrir pob Maes Dysgu a mathau o chwarae.

Dylai cynlluniau ysgrifenedig fod ar ffurf dogfennau gweithio hyblyg sy'n cynnwys:

- elfennau hanfodol sy'n ymwneud â'r saith Maes Dysgu
- cyfleoedd i ddysgu a datblygu, yn cynnwys cyfeiriad at y Fframwaith sgiliau



- darpariaeth ar gyfer arddulliau dysgu gwahanol
- adnoddau dysgu
- rolau ymarferwyr
- gwahaniaethu, a allai fod drwy amrywiaeth o ddulliau, megis:
  – adnoddau
  – cwestiynau
  – gweithgareddau
  – canlyniadau
  – cymorth unigol
  – cymorth mewn grŵp bach
- cyfleoedd ar gyfer arsylwi ac asesu cynnydd plant
- gwerthuso darpariaeth yn fyfyriol.

Dylid cael hyblygrwydd i fod yn ymatebol i ddiddordebau plant, y gweithgareddau y byddan nhw'n eu dewis, eu hanghenion o ran cymorth wrth i weithgareddau fynd rhagddyn nhw ac amser i'r plant barhau â gweithgareddau sydd heb eu gorffen.

## Cynllunio ar gyfer cynnydd

**Bydd profiadau dysgu perthnasol sy'n ennyn diddordeb yn galluogi plant i wneud cynnydd cyson sy'n briodol i'w cam datblygu.**

Gan y bydd plant yn symud ar hyd y continwwm dysgu ar gyflymder gwahanol, mae'n bwysig arsylwi sgiliau plant, ac ystyried anghenion unigol wrth gynllunio.

Bydd profiadau dysgu perthnasol sy'n ennyn diddordeb yn galluogi plant i wneud cynnydd cyson sy'n briodol i'w cam datblygu. Dylid cael cydbwysedd o weithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan ymarferydd, yn cynnwys gweithgareddau chwarae strwythuredig wedi'u cynllunio, a gweithgareddau sy'n cael eu hysgogi gan blant yn unol â'u diddordebau a'r adnoddau sydd ar gael.

Bydd cynnwys plant mewn gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau yn gwella'r profiadau dysgu iddyn nhw.

Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut y cafodd syniad plentyn ei droi yn ffocws gweithgaredd.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi cyfle i'r plant leisio eu barn a gweld eu hawgrymiadau ystyrlon yn cael eu rhoi ar waith.

## Gwaith cynllunio plentyn

Roedd yn ddiwrnod braf a phoeth yn yr haf a straeon Barti sef *Barty's Ketchup Catastrophe* a *Sgarff Barti* oedd yr ysgogiadau a gynlluniwyd ar ein cyfer ar gyfer yr wythnos. Gwyddai'r plant mai'r stori y bydden nhw'n gwrando arni, y gerdd y bydden nhw'n ei dysgu neu'r gân y bydden nhw'n ei chanu fyddai'r thema ar gyfer holl weithgareddau'r wythnos. Wrth ystyried pa eitemau y byddai Barti yn mynd gydag ef i aros yn nhŷ ei ffrind dros nos roedd pêl werdd smotiog bob amser yn amlwg ym mhob llun. Yn sydyn, rhoddodd Cerys ei llaw i fyny a dweud "Beth pe bai Barti yn colli'r bêl – fe allen ni fynd ar helfa drysor i ddod o hyd iddi!"

Nid oedden ni fel staff wedi cynllunio gweithgaredd o'r fath, ond y cwbl oedd ei angen oedd i'r athrawes ddal llygad y cynorthwywyr dysgu gan ein bod yn gweithio'n agos fel tîm. Dewisodd y plant hoff rif Barti ac wrth i'r plant wrando ar weddill y stori casglwyd a chuddiwyd y nifer hwnnw o beli o amgylch y cae. Roedd peli bach, peli mawr, peli meddal, peli streipïog, peli smotiog, peli tenis, a hyd yn oed bêl rygbi.

Fe wnaeth y plant fwynhau dod o hyd i'r peli, yn cyfrif y peli, yn disgrifio'r peli – a hyn oll wedi deillio o sylw un plentyn bach. Dim ond pump oed oedd Cerys. Dylanwadodd ei brwdfrydedd ar y gweddill ac awgrymodd y plant eraill weithgareddau, gan gynnwys gêm symiau tynnu gan ddefnyddio'r peli hyn.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi cyfle i'r plant leisio eu barn a gweld eu hawgrymiadau ystyrlon yn cael eu rhoi ar waith.

Gellir cynorthwyo plant i ddatblygu eu sgiliau drwy gynnig cyfleoedd ar gyfer:

- **chwarae** – dylid cynllunio cyfleoedd chwarae strwythuredig i blant er mwyn iddyn nhw archwilio, arbrofi, ymchwilio, rhagfynegi/amcangyfrif, mesur, adeiladu, gwneud penderfyniadau, datrys problemau, bod yn greadigol a defnyddio dychymyg, mynegi eu syniadau mewn ffyrdd amrywiol gan gynnwys ar lafar, drwy dynnu llun a thrwy ysgrifennu
- **ymarfer, atgyfnerthu ac adolygu** – dylid rhoi cyfleoedd i blant adeiladu ar ddysgu blaenorol, datblygu'r hyder i roi cynnig ar bethau newydd, mynegi/cyfathrebu eu teimladau, profi llwyddiant a methiant a datblygu'r dyfalbarhad i roi cynnig arall arni. Dylid annog plant i adolygu eu gwaith a datblygu sgiliau gwerthuso syml.

## Rhoi trefn ar yr amgylchedd dysgu

**Dylid defnyddio ystod ac amrywiaeth o adnoddau gan eu dewis i gynorthwyo'r plant i ddysgu dan do ac yn yr awyr agored.**

Er mwyn cynorthwyo datblygiad plant dylai'r amgylchedd dysgu dan do ac yn yr awyr agored fod yn ddiogel ac yn ddeniadol, gan ddarparu ffynhonnell gyson o ysgogiad ar gyfer dysgu plant. Dylid cael amrywiaeth dda o adnoddau gwahanol sy'n addas ar gyfer datblygiad corfforol ac ieithyddol plant gan alluogi pob plentyn i wneud cynnydd yn unol â'i allu. Dylai'r adnoddau fod o ansawdd da, mewn cyflwr da a dylen nhw ddenu plant i gymryd rhan, gan gynnig heriau a darparu ar gyfer arddulliau dysgu a chamau datblygu gwahanol. Dylai arwyddion, arddangosiadau ac adnoddau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog fod yn rhan hanfodol o'r amgylchedd dysgu.

Dylai adnoddau sicrhau cyfle cyfartal a diwallu anghenion unigol. Dylai adnoddau a gweithgareddau fod yn briodol o ran datblygiad, gan sicrhau bod yr hyn y mae'r plant wedi'i ddysgu yn cael ei atgyfnerthu a'u bod yn caffael sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd drwy holi ac ymchwilio. Dylid defnyddio ystod ac amrywiaeth o adnoddau gan eu dewis i gynorthwyo'r plant i ddysgu dan do ac yn yr awyr agored. Dylai'r modd y caiff adnoddau eu trefnu sicrhau bod amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i blant wneud dewisiadau, dethol a dychwelyd adnoddau ar ôl eu defnyddio a chymryd rhan mewn profiadau sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

Gall ymweliadau gan bobl o gymunedau lleol, o ddiwylliannau gwahanol ac o feysydd sydd o ddiddordeb penodol i'r plant fod yn adnodd defnyddiol ar gyfer yr amgylchedd dysgu. Gall yr ymweliadau hyn roi profiadau uniongyrchol i'r plant a darparu gweithgareddau

siarad a gwrando a chwarae rôl/chwarae gan ddefnyddio'r dychymyg. Gallan nhw ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth plant; er enghraifft, o'r rolau amrywiol sydd gan bobl yn y gymuned a thraddodiadau pwysig mewn diwylliannau gwahanol.

Dylid trefnu'r gofod i hwyluso:



- gweithgareddau wedi'u cynllunio a gweithgareddau ar hap dan do ac yn yr awyr agored ym mhob Maes Dysgu
- gweithgareddau sy'n darparu ar gyfer arddulliau dysgu gwahanol
- amrywiaeth eang o adnoddau sy'n hygyrch i blant ddethol a dychwelyd ar ôl eu defnyddio
- gweithgareddau corfforol a chymdeithasol
- dysgu annibynnol
- gwaith grŵp ar y cyd
- grwpiau mwy gydag ymarferydd
- dysgu gweithredol a dysgu tawel
- gwneud marciau ac ysgrifennu
- arddangosiadau rhyngweithiol ar gyfer archwilio ac ymchwilio
- adnoddau amlsynhwyraidd i ysgogi creadigrwydd ac i ddeffro'r dychymyg
- storio gwaith sy'n mynd yn ei flaen
- arddangosiadau o waith plant sydd wedi'i gwblhau er mwyn ysgogi, cymell ac atgyfnerthu dysgu
- cyfleoedd i ddarllen llyfrau ffuglennol a ffeithiol bob amser
- cyfleoedd i ddefnyddio TGCh gyda chymorth ymarferydd neu'n annibynnol.



Mae'r astudiaeth achos hon yn disgrifio sut y cafodd uned feithrin ei haddasu ar gyfer anghenion plant sy'n cael eu trosglwyddo o gylch meithrin a'r manteision a gafodd y plant yn sgîl hyn.

## Cysylltu cylch meithrin ag uned feithrin mewn ysgol gynradd

Roedd plant a oedd yn gadael y cylch meithrin (lleoliad peilot ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) yn ei chael yn anodd trosglwyddo – roedden nhw wedi arfer cael dewis o weithgareddau dan do neu yn yr awyr agored a gallu symud yn rhydd rhwng y ddau. Sylwodd y staff meithrin y byddai'r plant yn ymgasglu wrth y drws gwydr gan syllu ar y tir wrth ochr yr adeilad. Daethan nhw hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen i weithredu'r Cyfnod Sylfaen yn yr uned feithrin ac yn y dosbarth derbyn.

Gwnaed newidiadau yn raddol dros y flwyddyn ddiwethaf, a defnyddir y tir gerllaw adeilad y feithrinfa bob dydd gan roi dewis i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau dan do neu yn yr awyr agored. Er bod y plant yn cael defnyddio iard chwarae pwrpasol o flaen yr uned mae'n well ganddyn nhw ddefnyddio'r ardal laswelltog sy'n fwy hygyrch. Mae mwy a mwy o weithgareddau'n cael eu cyflwyno bob hanner tymor. Gwnaed newidiadau hefyd yn y dosbarth derbyn lle mae'r plant yn defnyddio'r ardal awyr agored ac mae'r ystafell ddosbarth wedi'i haildrefnu i greu mwy o le i chwarae rôl, chwarae gyda thywod, offer adeiladu a chwarae creadigol.

Roedd yr athrawon a'r staff cymorth yn awyddus i ymgorffori'r newidiadau ac maen nhw wedi gweld y buddiannau. Mae'r plant yn ymddangos yn llawer mwy annibynnol a hyderus ers i'r newidiadau hyn gael eu gwneud.

## Arsylwi

**Mae'n bwysig treulio amser yn arsylwi ar blant mewn gweithgareddau gwahanol i ddangos y rhoddir yr un gwerth i bob un ohonyn nhw.**

- Mae'n hanfodol bod arsylwi yn rhan annatod o rôl yr ymarferydd bob dydd er mwyn monitro:
  - – y broses ddysgu
  - – pa mor dda y mae'r plant yn canolbwyntio
  - – awydd i ddysgu
  - – rhyngweithio cymdeithasol
  - – annibyniaeth
  - – cryfderau a galluoedd ym mhob Maes Dysgu a datblygu
  - – anghenion dysgu ychwanegol.
- Mae asesiad sy'n seiliedig ar arsylwi yn galluogi'r ymarferwyr i roi adborth adeiladol ac mae'n helpu i lywio eu gwaith cynllunio ar gyfer cynnydd, ac i werthuso'r dysgu a ddarperir.
- Gall prosesau arsylwi hefyd dynnu sylw at gynlluniau penodol neu batrymau meddwl sy'n amlwg iawn mewn chwarae plentyn.
- Yn ogystal ag arsylwi ar weithgareddau dysgu yn rheolaidd pan gaiff gwybodaeth bwysig ei nodi, gellir cynnal arsylwadau gwahanol wedi'u cynllunio at ddibenion penodol, fel mapio dewis plentyn o weithgareddau, neu gwerthuso'r defnydd o weithgaredd chwarae strwythuredig.
- Mae'n bwysig treulio amser yn arsylwi ar blant mewn gweithgareddau gwahanol i ddangos y rhoddir yr un gwerth i bob un ohonyn nhw.

## Cynorthwyo'r dysgwr

Gall ymarferwyr gynorthwyo neu 'sgaffaldio' dysgu yn effeithiol drwy weithio ochr yn ochr ag unigolyn neu grŵp bach o blant, gan arsylwi, cymryd rhan ac ymyrryd os oes angen. Gellir cynorthwyo datblygiad drwy ddarparu adnoddau ychwanegol, gwneud awgrymiadau neu ofyn cwestiynau pen agored i herio ac ymestyn y meddwl. O ganlyniad i gymryd rhan efallai y bydd ymarferydd yn penderfynu dechrau gweithgaredd newydd er mwyn atgyfnerthu dysgu neu adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd eisoes. Bydd ymarferwyr sylwgar yn cynllunio cyfleoedd chwarae strwythuredig mewn ymateb i awgrymiadau gan y plant.

Dylai rhyngweithio rhwng ymarferwyr a phlant hyrwyddo sgiliau iaith a chyfathrebu ar bob cyfle. Dylai ymarferwyr allu defnyddio iaith sy'n addas ar gyfer dealltwriaeth y plant, gan gyflwyno geirfa newydd berthnasol a gofyn cwestiynau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r plant

fynegi eu syniadau eu hunain ac ymateb i gyfraniadau eraill. Dylai'r ymarferydd osod esiampl ochr yn ochr â'r plant, gan ddangos yr iaith a'r sgiliau dysgu sydd eu hangen.

Gellir gwella sgiliau gwybyddol a chymdeithasol pan fydd yr ymarferydd a'r plentyn yn datrys problem gyda'i gilydd. Gall ymarferydd ddatblygu meddwl plant ar draws y cwricwlwm drwy'r prosesau cynllunio, datblygu a myfyrio sy'n eu helpu i gaffael dealltwriaeth ddyfnach a'u galluogi i archwilio a gwneud synnwyr o'u byd.

Ni ddylai prosesau datblygu meddwl, sef cynllunio, datblygu a myfyrio, gael eu gweld fel steil haearnaidd o ddysgu ac addysgu. Does dim rhaid i bob proses gael lle penodol mewn tasg. Dylid defnyddio'r tair proses am yn ail i'w gilydd.

## Addysgu uniongyrchol

**Bydd adegau pan fydd angen addysgu sgil newydd yn uniongyrchol drwy weithgaredd wedi'i gynllunio gyda grŵp bach.**

Bydd adegau pan fydd angen addysgu sgil newydd yn uniongyrchol drwy weithgaredd wedi'i gynllunio gyda grŵp bach. Bydd hyn yn ategu'r rhaglen gytbwys o weithgareddau chwarae strwythuredig sydd ar gael.

Dylid rhannu deilliannau dysgu gyda'r plant mewn ffordd y gallan nhw eu deall a dylid annog plant i drafod eu gwaith er mwyn cyflwyno elfen o hunanwerthusiad. Waeth beth fo'r canlyniadau dylid canmol ymdrechion a dyfalbarhad plant a'u hannog mewn gweithgareddau chwarae strwythuredig a gweithgareddau a ysgogir gan blant yn ogystal ag mewn gweithgareddau o dan gyfarwyddyd ymarferydd.

## Strategaethau addysgu

Dylai ymarferwyr ddewis strategaethau addysgu priodol yn unol â'r gweithgareddau y maen nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw. Gallai gweithgaredd o dan gyfarwyddyd gynnwys dangos sgiliau newydd ac eglurhad clir o wybodaeth. Efallai y bydd angen ymyrryd mewn gweithgaredd datrys problemau sy'n seiliedig ar chwarae er mwyn cynorthwyo neu 'sgaffaldio' y dysgu, codi cwestiynau heriol neu atgyfnerthu drwy ganmol ac annog. Efallai y bydd angen cymryd rhan ryngweithiol mewn gweithgaredd chwarae rôl er mwyn ymestyn sgiliau iaith, gyda'r ymarferydd a'r plentyn yn cymryd rhan yn y gweithgaredd gyda'i gilydd.

Efallai y bydd angen ymyrryd mewn sefyllfa chwarae strwythuredig gydag adnoddau neu awgrymiadau ychwanegol er mwyn ymestyn y meddwl a symud y chwarae ymlaen. Dylai'r ymarferydd gydnabod pryd i ymyrryd yn sensitif mewn chwarae a phryd i adael i blant barhau heb gymorth hyd nes cyrhaeddan nhw eu casgliadau eu hunain.

## Partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr

Dylai ymarferwyr weithio'n agos gyda rhieni/gofalwyr er mwyn sicrhau y ceir parhad yn y ddarpariaeth yn y cartref ac yn y lleoliad/ysgol drwy:

- wahodd gwybodaeth am ddiddordebau'r plant
- rhannu gwybodaeth am weithgareddau dysgu
- trafod datblygiad plant
- ymgynghori ar gynnydd plant.

Rhieni/gofalwyr yw'r oedolion mwyaf cyson ym mywyd plentyn. Gallan nhw hwyluso'r broses bontio i'r plentyn, os byddan nhw'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y broses wrth i'r plentyn symud o'r cartref drwy leoliadau Cyfnod Sylfaen/ysgolion ac ymlaen i Gyfnod Allweddol 2.

## Rheoli'r broses ddysgu

Mae rôl y prif ymarferydd mewn lleoliad yn cynnwys rheoli ymarferwyr eraill a datblygu dull o gydweithio sy'n cynnwys yr holl ymarferwyr sy'n gweithio gyda'r plant, a'u rhieni/gofalwyr.

Mae'r arfer mwyaf effeithiol yn seiliedig ar nodau ac egwyddorion a rennir, cydnabod cryfderau pob aelod o'r tîm a chynnwys y tîm cyfan wrth wneud penderfyniadau, cynllunio ac asesu. Bydd dealltwriaeth ar y cyd o'r strategaethau addysgu i'w defnyddio yn sicrhau bod y dull o ategu'r dysgu yn gyson.

Dylai pob aelod o'r tîm fod â disgwyliadau uchel o'r plant. Dylen nhw fod yn hyddysg am ddatblygiad a dysgu'r plant, yn ymwybodol o ganlyniadau dysgu wedi'u cynllunio, gan wneud arsylwadau ar gynnydd a datblygiad plant a chyfrannu at drafodaethau am gynllunio ac asesu.

Dylid sicrhau bod amser ar gael i'r tîm gymryd rhan mewn arfer myfyriol gan fod hyn yn arwain at ddealltwriaeth well o ddatblygiad

plant, sut maen nhw'n dysgu, anghenion plant a'r ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny.

Mae rhannu arfer da a myfyrio ar yr ymchwil addysgol ddiweddaraf yn rhan werthfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus a all wella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau addysgeg pob ymarferydd ynghyd ag ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliad/ysgol.



# Addysgeg yn y Cyfnod Sylfaen

Defnyddir y term 'addysgeg' i gyfeirio at y berthynas gymhleth rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella o ganlyniad i waith ymchwil.

Bydd ymarferydd myfyriol y Cyfnod Sylfaen yn meddu ar:



- wybodaeth a dealltwriaeth o ddatblygiad plant a sut mae plant ifanc yn dysgu
- gwybodaeth am y saith Maes Dysgu yn y cwricwlwm
- sgiliau a gwybodaeth am ddarparu'r amgylcheddau a'r profiadau dysgu gorau er mwyn cymell plant a'u hysgogi i ddysgu
- sgiliau a gwybodaeth am arfer da wrth addysgu plant ifanc
- sgiliau a gwybodaeth am arfer da wrth arsylwi ac asesu cynnydd plant a chynllunio ar gyfer y continwwm dysgu
- sgiliau a gwybodaeth am gydweithio ag eraill er mwyn rhannu arfer da a myfyrio ar ymchwil addysgol
- datblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol yn barhaus.

**Mae'r astudiaeth achos hon yn cynnwys myfyrdodau dau ymarferydd ym mhrosiect peilot y Cyfnod Sylfaen a oedd yn rhannu eu profiadau o gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn eu lleoliadau/ysgolion.**

## Y daith

"Wrth i ni symud tuag at ddull datrys problemau o ran dysgu a datblygu sgiliau plant mae angen i ni gymryd cam yn ôl a datblygu cydberthnasau dilys gyda'r plant yn ein gofal. Cofiwch mai gweithio tuag at sicrhau eu bod yn mynd ar daith gyda ni yr ydym ac nid eu helpu i sicrhau canlyniad terfynol. Mae angen iddyn nhw deimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd a'u bod yn rheoli'r amgylchedd hwnnw. Mae hefyd angen i ni fod yn ymwybodol o'u lles emosiynol, eu helpu i fynegi eu hemosiynau a'u teimladau, datblygu hunanddelwedd gadarnhaol a pharodrwydd i beidio â rhoi'r ffidil yn y to wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd.

"Ni ddylen ni esgeuluso anghenion y plant rydyn ni'n gweithio gyda nhw drwy roi gormod o bwyslais ar y gweithgareddau."

" 'Rydyn ni'n mynd â'r plant i'r llinell gychwyn – nhw sy'n mynd â ni i'r llinell derfyn.' Taith yw hi, nid ras. Proses yw hi. Mae angen iddyn nhw ddysgu a datblygu, ac mae angen help a chefnogaeth arnyn nhw ar hyd y ffordd ond eu llinell derfyn nhw ydy hi."

# Damcaniaethwyr a seicolegwyr addysgol

Isod nodir rhai damcaniaethwyr a seicolegwyr addysgol y mae eu damcaniaethau/ymchwil yn cefnogi'r strategaethau addysgeg dysgu ac addysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

**Friedrich Froebel (1782–1852)**

Mae'n debyg mai Froebel, yr addysgwr o'r Almaen a sefydlodd ysgolion meithrin, sydd wedi cael y dylanwad mwyaf pellgyrhaeddol ar addysg plentyndod cynnar. Roedd datblygiad y plentyn cyfan drwy chwarae a dysgu gweithredol yn ganolog i'w ddamcaniaeth. Froebel oedd y person cyntaf i lunio damcaniaeth am addysg cyn ysgol gyda chwricwlwm a gynlluniwyd yn ofalus yn seiliedig ar brofiadau dysgu allweddol, gweithgareddau strwythuredig o dan arweiniad yr athro/athrawes sy'n rhoi cyfle i blant chwarae. Ymysg y gweithgareddau roedd straeon, gemau canu, tynnu llun, modelu a chwarae gyda setiau o wrthrychau a elwid yn 'rhoddion', fel sfferau, ciwbiau a silindrau. Arweiniodd y dull gweithredu cyfannol, integredig hwn at bedwar syniad sylfaenol: chwarae ac iaith, gweithredoedd, teimladau a meddyliau. Cydnabuwyd mai'r teulu oedd addysgwr cyntaf y plentyn ac mai'r gymuned oedd y cysylltiad rhwng y teulu a'r ysgol.

**Maria Montessori (1870–1952)**

Roedd Montessori yn feddyg yn Rhufain a ddatblygodd ddulliau addysgu strwythuredig ac adnoddau synhwyraidd i gynorthwyo plant ag anawsterau dysgu. Credai fod plant yn dysgu'n annibynnol drwy drin deunyddiau dysgu sydd wedi'u cynllunio at ddiben penodol, gan gyflawni tasgau cynyddol gymhleth. Pwysleisiodd Montessori bwysigrwydd amgylchedd dysgu wedi'i gynllunio a chyflwynodd offer o faint addas i blant a 'thai plant'. Fel Froebel, credai Montessori mewn dysgu gweithredol a phwysigrwydd datblygu'r plentyn cyfan, ond nid oedd yn gweld gwerth chwarae drwy ddefnyddio'r dychymyg, ac roedd y pwyslais ar ddatblygiad deallusol y plentyn.

**Rudolf Steiner (1861–1925)**

Sefydlodd Steiner, gwyddonydd ac athronydd o Awstria, ffurf nodedig ar addysgu sy'n pwysleisio hunaniaeth a theimladau plentyn ynghyd â'i ddysgu personol a chymdeithasol. Mae ysgolion Steiner yn cynnwys ethos sy'n ddymunol yn ysbrydol ac yn esthetig a

gweithgareddau dysgu sy'n seiliedig ar fywyd bob dydd (er enghraifft, paratoi bwyd, coginio a gwnïo), gyda'r athro/athrawes yn gosod esiampl. Mae'r drefn ddyddiol yn cynnwys straeon, cerddi, canu, symudiadau, gemau yn yr awyr agored a chwarae creadigol sy'n defnyddio'r dychymyg gyda deunyddiau naturiol a ffabrigau wedi'u lliwio. Cynlluniwyd yr ysgol i fod yn lle cartrefol ac fel arfer bydd y rhieni'n cymryd rhan flaenllaw.

**Margaret McMillan (1860–1931) a Rachel McMillan (1859–1917)**

Roedd Margaret McMillan yn athrawes hyfforddedig a oedd yn canolbwyntio ar iechyd a diwygio cymdeithasol. Cyflwynodd archwiliadau a thriniaethau meddygol ar gyfer plant ysgol a gyda'i chwaer, Rachel, sefydlodd ysgol feithrin yn yr awyr agored mewn ardal ddifreintiedig yn Llundain. Er bod yr arfer yn seiliedig ar egwyddorion Froebel roedd y pwyslais i ddechrau ar wella iechyd plant, ar adeg pan oedd clefydau yn lledaenu'n gyflym (ar ddechrau'r ugeinfed ganrif) mewn amgylchiadau lle roedd gormod o bobl yn byw o dan yr un to. Roedd cynnwys rhieni hefyd yn nod pwysig er mwyn hyrwyddo datblygiad a dysgu plant.

**Susan Isaacs (1885–1948)**

Defnyddiodd Isaacs arsylwadau systematig i ddatblygu dealltwriaeth o dwf deallusol plant. Sefydlodd yr Adran Datblygiad Plant gyntaf yn Athrofa Addysg Llundain gan annog athrawon i gofnodi arsylwadau o ymddygiad a dysgu plant. Fel Froebel credai Isaacs mewn pwysigrwydd chwarae wrth i blant ddysgu fel modd o ddatrys problemau, mynegi teimladau, magu hyder a datblygu cydberthnasau cymdeithasol â phlant eraill. Credai hefyd mewn pwysigrwydd gweithio gyda rhieni.

**Jean Piaget (1896–1980)**

Seicolegydd o'r Swistir oedd Piaget a gyfrannodd yn helaeth at addysg yn y 1960au gyda'i ddamcaniaeth o ddatblygiad gwybyddol. Awgrymodd bod pedwar cyfnod penodol o ran datblygu sgiliau gwybyddol:

| | |
|---|---|
| **0–2 flynedd** | y cyfnod synhwyraidd–symudol |
| **2–6/7 mlynedd** | y cyfnod cyn-weithredol (datblygiad symbolaidd o gysyniadau; chwarae) |
| **7–11/12 mlynedd** | y cyfnod gweithrediadau pendant (rhesymegol a mathemategol) |

| | |
|---|---|
| **11 mlynedd ymlaen** | y cyfnod gweithrediadau ffurfiol (meddwl haniaethol). |

Mae damcaniaeth adeileddol Piaget yn seiliedig ar y gred bod plant yn gyfranogwyr gweithredol sy'n adeiladu dysgu drwy ryngweithio â'u hamgylchedd a gwneud cysylltiadau rhwng profiadau newydd a'r hyn a ddysgwyd eisoes. Mae damcaniaeth adeileddol yn cydnabod mai dysgwyr gweithredol ac nid goddefol yw plant. Mae pobl sy'n feirniadol o ddamcaniaeth Piaget wedi herio'r syniad o gyfnodau sy'n seiliedig ar oedran wrth i gyfraddau datblygiad plant amrywio a gallan nhw weithredu ar lefelau gwahanol mewn meysydd dysgu gwahanol. Ehangwyd y ddamcaniaeth adeileddol gan Vygotsky a Bruner, a bwysleisiodd fod plant yn adeiladu dysgu, drwy iaith a thrwy ryngweithio ag oedolion a phlant eraill yn ogystal â thrwy ryngweithio â'r amgylchedd ffisegol.

### Lev Vygotsky (1896–1934)

Mae Damcaniaeth Rhyngweithio Cymdeithasol Vygotsky, y seicolegydd o Rwsia wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'n dealltwriaeth o ddysgu plant. Credai fod chwarae a datblygu lleferydd yn ffactorau pwysig yn y broses ddysgu. Drwy gyfathrebu a rhyngweithio'n gymdeithasol ag oedolion neu gyfoedion mwy gwybodus gall plant gyflawni lefelau uwch o ddealltwriaeth nag y bydden nhw'n ei gyflawni'n annibynnol. 'Y Parth Datblygiad Nesaf' yw'r enw a roddodd ar y bwlch rhwng yr hyn y gall plant ei gyflawni heb gymorth a'r hyn y gallan nhw ei gyflawni gyda chymorth ac arweiniad. Nododd y gall plentyn yfory gyflawni'n annibynnol yr hyn y gall ei gyflawni gyda chymorth heddiw.

Pwysleisiodd rôl yr ymarferydd wrth gyfateb gweithgareddau dysgu i lefel datblygiad plant ac annog cynnydd o ran y ffordd y mae plentyn yn meddwl. Defnyddir y term 'damcaniaeth adeileddol gymdeithasol' weithiau i ddisgrifio'r dull cydweithredol o ddysgu sy'n cynnwys rhyngweithio rhwng y dysgwr ac eraill sy'n fwy gwybodus.

### Jerome Bruner (ganwyd 1915)

Nododd Bruner, seicolegydd o America dri dull dysgu eang: perfformiadol (gweithredoedd), eiconig (lluniau) a symbolaidd (geiriau a rhifau). Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd ymyriad gan oedolion er mwyn cynorthwyo neu ‘sgaffaldio’ dysgu a galluogi plentyn i wneud cynnydd. Er mwyn sgaffaldio’n effeithiol mae angen i’r ymarferydd fod yn ymwybodol o’r hyn y mae’r plentyn yn ei wybod eisoes er mwyn adeiladu ar hynny. Yn aml bydd sgaffaldio ar ffurf deialog rhwng yr oedolyn a’r plentyn. Mae Bruner yn enwog am gyflwyno’r syniad o ‘gwricwlwm sbiral’, lle gellir ailgyflwyno pwnc ar lefel fwy cymhleth wrth i sgiliau meddwl ddatblygu.

### Howard Gardner (ganwyd 1943)

Bu Gardner, seicolegydd o Harvard, yn gweithio fel ymchwilydd ifanc i Bruner ac yn ddiweddarach cyflwynodd ei Ddamcaniaeth Deallusrwydd Lluosog. Credai nad oedd digon o sylw’n cael ei roi i ddeallusrwydd o ran sgiliau ieithyddol a mathemategol a bod hyn yn effeithio’n andwyol ar ddatblygiad potensial yn gyffredinol. Awgrymodd fod potensial dysgu yn cwmpasu wyth deallusrwydd gwahanol:

- deallusrwydd ieithyddol (geiriau)
- deallusrwydd rhesymegol-fathemategol (rhifau neu resymeg)
- deallusrwydd gweledol-ofodol (lluniau)
- deallusrwydd cerddorol (cerddoriaeth)
- deallusrwydd mewnbersonol (hunanfyfyrio)
- deallusrwydd corfforol-ginesthetig (profiad corfforol)
- deallusrwydd rhyngbersonol (profiad cymdeithasol)
- deallusrwydd naturiolaethol (profiad o fyd natur).

Dros y ddau ddegawd diwethaf mae diddordeb wedi datblygu yn y ddamcaniaeth hon, sy’n nodi’r ystod o brofiadau y dylai plant eu cael er mwyn cyflawni eu potensial.

Mae ein dealltwriaeth o ddamcaniaethau dysgu yn datblygu’n barhaus o ganlyniad i ymchwil newydd a chymdeithas sy’n esblygu. Weithiau bydd damcaniaethau newydd yn herio ein rhagdybiaethau blaenorol. Fodd bynnag, mae llawer o’r damcaniaethau uchod wedi hen ymsefydlu ac maen nhw’n parhau i fod yn sail i arfer da mewn addysg plentyndod cynnar.

# Meysydd ymchwil/damcaniaethau dysgu cyfredol

Mae llawer o'r damcaniaethau ar y tudalennau blaenorol wedi hen ennill eu plwy ac maen nhw'n dal wrth wraidd arferion da cyfredol yn addysg y blynyddoedd cynnar.

Mae ein dealltwriaeth o ddamcaniaeth dysgu yn datblygu'n barhaus yn sgil ymchwil newydd ac anghenion newidiol cymdeithas. Weithiau mae damcaniaethau newydd yn herio ein tybiaethau blaenorol. Disgrifir isod rai agweddau ar ymchwil ddiweddar sy'n dylanwadu ar ymarfer heddiw. Un peth sy'n gyffredin i'r holl ddamcaniaethau hyn yw gwell dealltwriaeth o ddatblygiad yr unigolyn (yn gymdeithasol, emosiynol, corfforol a gwybyddol). Sylweddolir bod yr holl agweddau ar ddatblygiad plentyn yn gyd-ddibynnol er mwyn iddo gyrraedd ei botensial wrth dysgu. Mae cynnydd technolegol yn y degawd diwethaf wedi galluogi ymchwilwyr i ddysgu llawer am yr ymennydd ac mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at ddamcaniaethau dysgu.

## Deallusrwydd emosiynol/llythrennedd emosiynol

Dechreuodd damcaniaethau deallusrwydd emosiynol yng ngwaith seicolegwyr yn America yn y 1970au a'r 1980au, gan gynnwys Howard Gardner, a bu diddordeb cynyddol yn ei rhoi ar waith mewn addysg ac yn y gweithle ar ôl cyhoeddi llyfr Daniel Goleman *Emotional Intelligence: Why it Can Matter More Than IQ* (Bloomsbury Publishing PLC, 1996). Mae'r ddamcaniaeth yn honni y gall deall ein teimladau ni ein hunain a deall pobl eraill a'u teimladau helpu i reoli sefyllfaoedd personol a chymdeithasol yn fwy effeithiol. O ganlyniad i hyn, ceir gwell hunan-barch, ymatebir i her yn fwy hyderus a gellir gwella perfformiad. Mae rhaglenni gyda'r nod o hyrwyddo llythrennedd emosiynol fel SEAL (Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol Dysgu) a PALS (Chwarae a dysgu i gymdeithasu) yn ceisio helpu plant i ddatblygu hunanymwybyddiaeth, i adnabod a rheoli eu hemosiynau, i'w symbylu eu hunain, i adeiladu perthnasoedd ac empatheiddio ag eraill.

## Niwrowyddoniaeth/datblygiad yr ymennydd

Rydym yn gwybod mwy am adeiledd corfforol yr ymennydd nag am sut mae'n gweithio. Mae'r ymennydd yn datblygu gyflymaf rhwng ein genedigaeth, pan fydd tua 25 y cant o faint ymennydd oedolyn a 5 i 6 oed pan fydd yn cyrraedd 90 y cant o faint ymennydd oedolyn.

Felly mae mwy o ddysgu yn digwydd yn ystod pum mlynedd gyntaf bywyd nag ar unrhyw adeg arall. Mae niwrowyddoniaeth wedi dangos bod nifer y celloedd yn yr ymennydd yn cynyddu'n arbennig o gyflym yn fuan ar ôl ein geni. Sefydlir y cysylltiadau rhwng celloedd trwy brofiadau amlsynhwyraidd a thrwy gael eu defnyddio dro ar ôl tro ond heb ysgogiad bydd llawer o gelloedd yn marw. Ni fydd y gweddill yn cyrraedd eu gallu llawn oni fyddan nhw'n datblygu eu swyddogaeth trwy'r amser trwy brofiadau newydd ac ysgogiad meddyliol. Mae cyfnodau hollbwysig wedi'u hadnabod hefyd pan fydd datblygiad yr ymennydd yn arbennig o barod i dderbyn mathau penodol o ddysgu. Er enghraifft, mae wyth mlynedd gyntaf bywyd yn gyfnod hollbwysig ar gyfer dysgu iaith. Yn yr un modd mae ymwybyddiaeth gymdeithasol ac emosiynol a hyd cyfnod canolbwyntio yn datblygu'n sylweddol mewn plant 3 i 6 blwydd oed.

Trefnir yr ymennydd yn dair prif ran, sef: yr ymennydd ymlusgiadol (sy'n gysylltiedig â greddfau a goroesi), yr ymennydd canol (sy'n gysylltiedig ag emosiynau, hunanymwybyddiaeth, canolbwyntio a chof hirdymor), a'r neocortecs (lle mae dysgu academaidd a sgiliau meddwl uwch yn digwydd). Rhennir y neocortecs yn ddau hemisffer cymesur a chredir eu bod yn arbenigo mewn gwahanol agweddau ar ddysgu, gyda'r un chwith yn gysylltiedig ag iaith, rhesymeg a rhif a'r un de ag agweddau dieiriau, gweledol, dychmygol a cherddorol. Yn y 1990au dechreuwyd datblygu dulliau strwythuredig o addysgu megis dysgu sy'n gydnaws â'r ymennydd a dysgu carlam, gan ganolbwyntio ar helpu ochr dde ac ochr chwith yr ymennydd i gydweithio mor effeithiol ag y bo modd. Dyfeisiwyd technegau fel mapio cysyniadau a Champfa'r Ymennydd i geisio gwella ansawdd a chyflymder y dysgu a gwella canolbwyntio. Defnyddir cerddoriaeth weithiau i greu cyfrwng ysgogol ar gyfer dysgu a rhoi lle i'r hemisffer chwith yn ystod amrywiaeth o weithgareddau.

## Dulliau dysgu

Arweiniodd gwell dealltwriaeth o sut mae'r ymennydd yn prosesu gwybodaeth at ddiddordeb yn swyddogaeth y synhwyrau mewn strategaethau dysgu. Cyflwynwyd tri chategori i ddisgrifio'r prif ddulliau dysgu, sef: gweledol, clybodol a chinesthetig. Os rhoddir cyfle i bob dull trwy amrywiaeth o weithgareddau, gall dysgwyr ddysgu yn y dull y maen nhw'n dewis neu gyfuniad o ddulliau. Efallai y bydd plant hŷn yn dechrau dangos bod yn well ganddyn nhw un dull arbennig ond byddan nhw'n defnyddio dulliau eraill i ryw raddau. Mae strategaethau dysgu ym mhob lleoliad ar gyfer plant ifanc yn defnyddio gwahanol ddulliau dysgu trwy gymhorthion gweledol, caneuon, straeon, symudiad a chwarae gweithredol.

## Lles ac ymwneud

Mae lles yn gysylltiedig â datblygiad personol a chymdeithasol, gallu canolbwyntio a symbyliad i gymryd rhan mewn dysgu. Canolbwyntiodd ymchwil gan Yr Athro Laevers (1994) ar symbyliad fel un o'r prif nodweddion wrth gynnwys plentyn mewn dysgu. Cyflwynodd Laevers Raddfa Ymwneud Plant i asesu i ba raddau roedd plant yn canolbwyntio ar ddysgu. Defnyddiodd Pascal a Bertram (1997) waith Laevers yn eu Prosiect Dysgu Cynnar Effeithiol, sef prosiect ymchwil a datblygu sy'n ceisio gwella ansawdd y ddarpariaeth yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar. Defnyddiasant Raddfa Ymwneud Plant i asesu i ba raddau roedd plentyn yn canolbwyntio ar weithgareddau dysgu a Graddfeydd Ymwneud Oedolion i ddadansoddi rôl yr oedolyn mewn rhyngweithio rhwng oedolion a phlant. Gwelir bod datblygiad personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithio ar bob dysgu arall.

## Iechyd a lles

Mae'r diffiniadau o iechyd wedi ehangu yn y blynyddoedd diwethaf i gynnwys agweddau corfforol, meddyliol, cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol ac agweddau yn ymwneud â chymdeithas. Mae dylanwadau cadarnhaol ar iechyd a lles yn cynnwys deiet cytbwys, ymarfer corff rheolaidd, perthnasoedd cefnogol, gwaith ysgogol, addysg a gweithgareddau hamdden. Mae plant iach yn mwynhau chwarae bywiog ac maen nhw'n awyddus i ddysgu fel rheol. Am wahanol resymau ceir anghydraddoldeb yn iechyd plant sy'n rhwystro rhai plant rhag ymwneud â'r cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddyn nhw. Mae lleihau anghydraddoldeb iechyd i blant yn un o'r blaenoriaethau cenedlaethol sy'n effeithio ar bob gweithiwr proffesiynol ym maes y blynyddoedd cynnar. Sylweddolir pa mor bwysig yw chwarae yn yr awyr iach o ran iechyd, datblygiad a dysgu. Mae llawer o ffactorau, genetig ac amgylcheddol, yn dylanwadu ar iechyd plant, gan gynnwys tlodi. Mae mentrau newydd sy'n ceisio hybu iechyd mewn plant yn cynnwys clybiau brecwast, Cychwyn Cadarn, cynlluniau iechyd cymunedol, ymgyrchoedd gwrth ysmygu a chynlluniau ffrwythau cenedlaethol. Mae bwyta'n iach wedi dod yn flaenoriaeth fawr gan fod mwy a mwy o blant mewn perygl o ddod yn ordew oherwydd deiet a ffyrdd afiach o fwy, gan gyfyngu ar eu gallu i gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau dysgu.

## Cyfathrebu

Mae ymchwil gan yr Athro Trevarthen dros y 30 mlynedd diwethaf wedi dangos bod cyfathrebu rhwng babanod a'r sawl sy'n gofalu

amdanyn nhw'n dechrau yn fuan ar ôl eu geni. Mae babanod yn dechrau ymwneud, disgwyl eu tro, ymateb i batrymau iaith, rhythm a goslef y llais. Mae'r rhyngweithiad rhyngbersonol hwn yn ffurfio sail ar gyfer sgiliau iaith trwy gyswllt llygad, symudiad a synau. Sylweddolir hefyd fod sgiliau gwrando a siarad yn hanfodol ar gyfer cyfrannu at y broses ddysgu ac mae damcaniaethwyr ieithyddol yn credu yng ngwerth siarad wrth ddatblygu meddwl. Maen nhw wedi dangos bod ar blant angen 'partneriaid siarad' da sy'n oedolion i wrando arnyn nhw ac adeiladu ar beth maen nhw'n ei ddweud. Er bod Piaget yn credu bod y plentyn yn datblygu cysyniadau trwy ryngweithio â'r amgylchedd dysgu mae damcaniaethau diweddarach wedi sylweddoli bod iaith yn chwarae rhan bwysig mewn dysgu. Pwysleisiodd Vygotsky a Bruner bwysigrwydd dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol ar ddatblygiad iaith a sgiliau gwybyddol plentyn. Mae ymchwil ar yr ymennydd yn dangos bod meddyliau plant ifanc yn gallu derbyn iaith yn rhwydd ac felly bod y blynyddoedd cynnar yn amser delfrydol i gyflwyno iaith newydd. Mae hyn yn cefnogi cyflwyno Datblygu'r Gymraeg fel un o'r Meysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

## Meddwl ar y cyd hir ei barhad

Trwy gynnal deialog â phlentyn, gan ei annog i siarad am ei ddiddordebau a thrwy ofyn cwestiynau penagored, gall ymarferydd gefnogi ac estyn meddwl y plentyn. Mae hyn yn adlewyrchu damcaniaeth rhyngweithiad cymdeithasol Vygotsky a damcaniaeth adeiladol-gymdeithasol Bruner. Mae meddwl ar y cyd hir ei barhad yn disgrifio'r broses lle mae'r ymarferydd a'r plentyn yn gweithredu fel cyd-adeiladwyr mewn dysgu, gyda'r ddau yn cyfrannu at ddatrys problem. Mae rhyngweithio a deialog rhwng yr ymarferydd a'r plentyn yn cyflwyno geirfa berthnasol, yn sbarduno trafodaeth, yn herio'r dysgwr ac yn ei annog i fyfyrio. Mae rôl yr ymarferydd yn allweddol wrth helpu plant i ddatblygu eu sgiliau meddwl.

Ceir gwahanol ddulliau o ddysgu sgiliau meddwl ac mae angen ym mhob un i wneud cysylltiadau rhwng sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n bodoli eisoes a dysgu newydd. Gwahaniaethodd McGuinness (1999), yn ei Briff Ymchwil i'r Adran dros Addysg a Chyflogaeth (*From Thinking Skills to Thinking Classrooms*, Yr Adran dros Addysg a Chyflogaeth, Briff Ymchwil, Adroddiad Ymchwil Rhif 115), rhwng dulliau lle cyflwynir sgiliau meddwl yn ystod addysgu a dysgu bob dydd (trwytho) a'r dulliau hynny sy'n addysgu sgiliau meddwl yn uniongyrchol (ar wahân). Mae'r enghreifftiau o raglenni ar gyfer addysgu meddwl yn cynnwys Philosophy for Children, Let's Think ac Activating Children's Thinking Skills (ACTS).

# Gwybodaeth a chysylltiadau defnyddiol

*Arsylwi ar Blant* (LICC, 2008)

*Cyfnod Sylfaen: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol* (LICC, 2008)

*Chwarae/Dysgu Gweithredol: Trosolwg ar gyfer plant 3 i 7 oed* (LICC, 2008)

*Effective Early Learning – Case Studies in Improvement* gan C Pascal a T Bertram (Paul Chapman Publishing Ltd, 1997)
ISBN: 9780761972938

*Effective Teaching and Learning in the Primary Classroom: A Practical Guide to Brain Compatible Learning* gan S Shaw a T Hawes (Equip, 1998) ISBN: 0953353109

*Enhancing Learning Through Play: A Developmental Perspective for Early Years Settings* gan C Macintyre (David Fulton Publishers Ltd, 2006) ISBN: 9781853467615

*Frames of Mind: The Theory of Multiple Intelligences* gan H Gardner (Fontana Press, 1993) ISBN: 9780006862901

*Fframwaith Sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (LICC, 2008)

*Promoting Children's Learning from Birth to Five* gan A Anning ac A Edwards (OUP, 2000) ISBN: 9780335219704

*Supporting Early Learning: The way forward* gan V Hurst a J Joseph (OUP, 1998) ISBN: 9780335199501

*The Thinking Child – Brain-based Learning for the Foundation Stage* gan N Call ac S Featherstone (Network Educational Press Ltd, 2003)
ISBN: 9781855391215

*Understanding Pedagogy and Its Impact on Learning* golygwyd gan P Mortimore (Paul Chapman Publishing Ltd, 1999)
ISBN: 9781853964534

*A Process-Oriented Child Monitoring System* (gwaith ymchmil a ddechreuwyd 1976) gan F Laevers (Cyfres *Addysg trwy brofiadau*, Canolfan Addysg Brofiadol, Gwlad Belg). Rhaglen ar gyfer asesu ac arsylwi ar les plant a'r rhan maen nhw'n ei chwarae yw hon. Gellir gweld adran deunyddiau dysgu Saesneg a deunyddiau perthnasol eraill drwy ymweld â www.cego.be

Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru:
www.walesppa.org

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ymchwil Yr Athro Trevarthen:

*Early Childhood Education* gan T Bruce (Hodder & Stoughton Ltd, 2007) ISBN: 9780340889725

*Language and Literacy in the Early Years* gan M R Whitehead (SAGE Publications Ltd, 2004) ISBN: 9780761944706

*Music and child development* gan Professor T David, erthygl ar gael o wefan y Literacy Trust: www.literacytrust.org.uk

# Geirfa'r Cyfnod Sylfaen

**Addysgeg**
Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n cynnwys y cysyniad o'r ymarferydd fel hwylusydd dysgu, gan ymateb i anghenion unigolion, parodrwydd i ddysgu ochr yn ochr â'r plant, defnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer a'i gwella.

**Amrywiaeth ddiwylliannol**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, yn dathlu gwahanol ddiwylliannau ac yn helpu plant i adnabod a chael ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant nhw eu hunain a diwylliant pobl eraill. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn cynnig modd i blant fod yn fwy ymwybodol o werth yr amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli yng Nghymru, a'u gwerthfawrogi.

**Annibyniaeth**
Mae annibyniaeth yn cyfeirio at gael y gallu a'r sgil i fod yn llai dibynnol ar eraill. Dylai sgiliau rheoli ac ymdopi gael eu datblygu'n raddol trwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Asesu statudol**
O fewn y Cyfnod Sylfaen mae dau asesiad statudol y mae'n rhaid eu cyflawni: asesu sylfaenol ac asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod.

**Cof**
Y cof yw rhan o'r ymennydd lle mae gwybodaeth yn cael ei chasglu, ei chadw a'i hadalw yn ddiweddarach. I gychwyn rhaid cymryd gwybodaeth a'i deall; yna caiff ei chadw a'i hadalw pan fydd ei hangen. Mae angen pob un o'r prosesau hyn er mwyn i ddysgu ddigwydd.

**Cwricwlwm**
Mae saith Maes Dysgu wedi cael eu nodi i ddisgrifio cwricwlwm priodol ar gyfer plant 3 i 7 oed sy'n cefnogi datblygiad plant a'u sgiliau. Maen nhw'n ategu ei gilydd ac yn cydweithio i ddarparu cwricwlwm sy'n gyfannol. Mae'r cynnwys (sgiliau ac ystod) addysg statudol y mae angen ei ddilyn i'w gweld ym mhob Maes Dysgu.

**Cwricwlwm cyfannol**
Mae'r cwricwlwm cyfannol yn gwricwlwm lle mae Meysydd Dysgu wedi'u cydgysylltu ac mae dysgu ac addysgu yn cynnal sawl agwedd

ar ddatblygiad y plentyn yn hytrach na chanolbwyntio ar un cyfnod neu angen penodol. Mae'r cwricwlwm yn cael ei ystyried a'i gyflwyno fel un cwricwlwm.

**Cwricwlwm Cymreig**
Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at y Cwricwlwm Cymreig trwy ddatblygu dealltwriaeth plant o'r hunaniaeth ddiwylliannol sy'n unigryw i Gymru ar draws pob Maes Dysgu trwy ymagwedd integredig. Dylai plant werthfawrogi'r gwahanol ieithoedd, delweddau, gwrthrychau, seiniau a blasau sy'n rhan annatod o Gymru heddiw, a chael syniad o berthyn i Gymru, a deall treftadaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau Cymru yn ogystal â'r iaith.

**Cyfathrebu/datblygu iaith**
Mae iaith yn gyfuniad o wahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae tôn y llais yn ffurf bwerus o gyfleu ystyr. Gall rhai plant ddefnyddio systemau eraill heblaw'r llais megis arwyddo.

Mae gwahanol fathau o gyfathrebu di-eiriau hefyd, megis mynegiant yr wyneb (gwenu), ystumiau/symudiadau'r corff (ysgwyddau yn gwargrymu a chysylltiad â'r llygad).

**Chwarae addysgol strwythuredig**
Mae deilliannau wedi'u cynllunio'n benodol yn deillio o brofiadau chwarae strwythuredig i estyn dysgu, sgiliau a datblygiad plant. Dylai chwarae strwythuredig gael ei gynllunio mewn ffordd hyblyg er mwyn caniatáu i blant gael cyfleoedd i ddewis ac ehangu'r gweithgaredd yn ôl eu diddordebau a'u gwybodaeth.

**Chwarae ar eu pennau eu hunain**
Mae plant yn chwarae'n hapus ar eu pennau eu hunain. Byddan nhw'n ymwneud â'u chwarae eu hunain ac yn symud o weithgaredd i weithgaredd heb ystyried unrhyw blant eraill. Yn aml yn y cyfnod chwarae hwn bydd plant yn mwynhau efelychu gweithgareddau bob dydd.

**Chwarae cydweithredol/grŵp**
Pan fydd plant yn dechrau chwarae gyda'i gilydd, byddan nhw'n rhannu eu chwarae. Daw plant yn fwy cymdeithasol, byddan nhw'n derbyn rolau yn y chwarae ac yn ystyried rolau plant eraill. Maen nhw'n dechrau dod yn ymwybodol o anghenion a dymuniadau eu cyfoedion, ac felly yn raddol bydd y chwarae yn dod yn fwy cymhleth. Weithiau byddan nhw'n dyfeisio rheolau, a byddan nhw'n mynd yn ôl at y chwarae cydweithredol dros sawl diwrnod.

**Chwarae paralel**
Gall ymddangos fod plant yn chwarae gyda'i gilydd ond trwy arsylwi'n fwy manwl gwelir bod y plant yn chwarae ar eu pennau eu hunain ac nid yn rhyngweithio â'i gilydd. Gall plant fod yn defnyddio'r un cyfarpar neu'n eistedd neu'n sefyll nesaf at ei gilydd, ond eto yn gweithio'n annibynnol ar ei gilydd; nid oes unrhyw ryngweithio cadarnhaol na negyddol rhyngddyn nhw yn eu chwarae.

**Dan arweiniad ymarferydd/oedolyn**
Mae angen i ymarferwyr gynllunio cwricwlwm priodol sy'n cadw diddordeb plant yn eu dysgu. Mae angen iddyn nhw annog, cymell a datblygu agweddau. Mae angen i ymarferwyr fod yn ymwybodol o bryd y mae'n briodol i ymyrryd yn sensitif i estyn dysgu'r plant, herio'u sgiliau datrys problemau a'u sgiliau meddwl, a phryd i ganiatáu i'r plant gyrraedd diweddglo boddhaol ar eu pennau eu hunain. Dylai ymarferwyr gefnogi/cynnal dysgu'r plant, trwy arsylwi, monitro ac asesu dilyniant plant er mwyn sicrhau eu bod yn symud ymlaen i gyfnodau nesaf eu datblygiad a bod eu sgiliau yn cael eu hestyn.

**Datblygiad corfforol**
Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cysylltiad agos rhwng datblygiad corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gellir rhannu datblygiad corfforol yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl.

**Datblygiad cymdeithasol**
Mae datblygiad cymdeithasol yn canolbwyntio ar ryngweithiadau cymdeithasol plant a'u perthynas â'u cyfoedion, ymarferwyr ac oedolion.

**Datblygiad gwybyddol**
Ystyr datblygiad gwybyddol yw datblygu'r meddwl. Mae'n canolbwyntio ar feddwl a dealltwriaeth, dychymyg a chreadigrwydd y plentyn (gan gynnwys datrys problemau/rhesymu/canolbwyntio a chof).

**Datblygiad personol**
Mae datblygiad personol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth plant o'u hunain a datblygu eu sgiliau hunangymorth.

**Datrys problemau**
Mae datrys problemau yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gallu i asesu problem/sefyllfa yna casglu gwybodaeth a chael hyd i ateb. Pan fydd sgiliau'r plant yn cynyddu byddan nhw'n gallu tynnu ar brofiadau blaenorol wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd a datrys problemau.

**Deilliannau**
Mae Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn cynnwys graddfeydd a disgrifiadau asesu sylfaenol a disgrifiadau lefel y cwricwlwm cenedlaethol. Cawsant eu datblygu i ategu asesiad statudol athrawon diwedd cyfnod. Mae chwe Deilliant gan bob Maes Dysgu ac at ddibenion gwybodaeth mae Deilliannau 4–6 yn croesgyfeirio'n fras i'r disgrifiadau cyfredol am Lefelau 1–3.

**Dulliau dysgu**
Mae gwahanol ddulliau dysgu neu ddulliau rhyngweithio o ddewis. Y dulliau dysgu yw: gweledol, clybodol a chinesthetig. Pan fydd dulliau dysgu yn cael eu hystyried gellir gwella dysgu. Bydd rhai plant yn dysgu orau os oes ysgogiad gweledol ganddyn nhw, ond bydd eraill yn dysgu orau trwy ysgogiad clybodol neu dasg ginesthetig (ymarferol). Mae ymchwil i ddatblygiad yr ymennydd wedi dangos bod dulliau dysgu unigol yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd, y math o weithgaredd dysgu a gweithio'n annibynnol neu mewn grŵp.

**Dychymyg**
Ystyr dychymyg yw cael y sgiliau a'r gallu i ffurfio delweddau, syniadau a chysyniadau sydd naill ai'n bodoli ond nid ydyn nhw'n bresennol neu nad ydyn nhw'n bodoli o gwbl.

**Dysgu gweithredol**
Mae'r term hwn yn cyfeirio at blant yn dysgu'n weithredol ac yn cael rhan yn eu dysgu. Mae plant yn dysgu orau trwy brofiadau uniongyrchol. Mae'n hanfodol bod plant yn cael profiadau gweithredol dan do ac yn yr awyr agored sy'n meithrin eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ac a fydd yn cynnal eu dysgu yn y dyfodol.

Pwrpas chwarae/dysgu gweithredol yw ei fod yn cymell, yn ysgogi ac yn cynnal plant wrth iddyn nhw ddatblygu sgiliau, cysyniadau, caffael iaith/sgiliau cyfathrebu a chanolbwyntio. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i blant ddatblygu agweddau cadarnhaol a dangos ymwybyddiaeth/defnydd o ddysgu diweddar, sgiliau a chymwyseddau, ac mae'n cyfnerthu dysgu.

**Dysgu yn yr awyr agored**
Mae pwyslais cryf ar ddysgu yn yr awyr agored yn y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r amgylchedd dysgu yn yr awyr agored fod yn estyniad i'r amgylchedd dan do. Dylid cynllunio gweithgareddau strwythuredig yn seiliedig ar brofiad ar gyfer y diwrnod cyfan a chyn belled ag y bo modd, dylai plant gael symud yn rhwydd rhwng y tu mewn a'r tu allan (gan gadw mewn cof faterion iechyd a diogelwch).

**Fframwaith sgiliau**
Mae'r *Fframwaith sgiliau ar gyfer plant 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol yn disgrifio dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, rhif a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

**Gwahaniaethu**
Dylai'r cwricwlwm fod yn hyblyg er mwyn cyfateb â galluoedd, sgiliau ac anghenion datblygiadol plant.

**Gwylio chwarae**
Bydd plant yn arsylwi ar blant eraill ond nid ydyn nhw'n ymuno. Byddan nhw'n hoffi gwylio plant eraill yn chwarae. Yn aml gellir eu gweld yn sefyll/eistedd ar ymylon y mannau lle mae'r plant eraill yn chwarae. Er y gall ymddangos eu bod yn unig neu'n ddihyder, yn aml gallan nhw fod yn canolbwyntio tra eu bod yn arsylwi ar y chwarae er mwyn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sydd i'w wneud.

**Hunan-barch**
Mae hyn yn cyfeirio at y ffordd y mae plant yn teimlo amdanyn nhw eu hunain. Mae teimladau cadarnhaol yn dynodi hunan-barch uchel a theimladau negyddol yn dynodi hunan-barch isel.

**Lles emosiynol**
Mae datblygiad emosiynol yn canolbwyntio ar ddatblygu hunan-barch plant, eu teimladau a'u hymwybyddiaeth o deimladau eraill.

**Partneriaeth/chwarae cysylltiadol**
Bydd plant sy'n gweithio yn y cyfnod partneriaeth/chwarae cysylltiadol yn dechrau dod yn ymwybodol o blant eraill. Byddan nhw'n dechrau cyfathrebu â'i gilydd ac yn fwy ymwybodol o'r chwarae/gemau y mae'r plant eraill yn cymryd rhan ynddyn nhw. Maen nhw'n dechrau esbonio i'w gilydd beth maen nhw'n ei wneud. Yn raddol bydd un plentyn yn dechrau ymwneud â chwarae'r llall.

**Proffil asesu**
Mae'r proffil asesu yn cynnig arweiniad ar gyfnodau datblygu allweddol plant a'r sgiliau y gall plant eu datblygu a'u caffael o tua 18 mis i 84 mis.

**Sgiliau echddygol bras**
Mae datblygiad sgiliau echddygol bras yn dechrau gyda'r baban ifanc yn rheoli symudiadau'r pen ac yna'n, symud i lawr y corff, rheoli rhannau eraill o'r corff. Mae datblygiad echddygol bras yn cynnwys defnyddio symudiadau'r corff cyfan, cydsymud a chydbwysedd.

**Sgiliau llawdrin manwl**
Mae datblygu sgiliau llawdrin manwl/echddygol plant yn dechrau yng nghanol eu cyrff ac yn symud allan. Trwy ddatblygiad priodol, bydd plant yn gallu cyflawni symudiadau manwl a chymhleth. Mae sgiliau llawdrin manwl yn cynnwys defnyddio symudiadau'r bysedd a chydsymud llaw–llygad.

**Wedi'u cychwyn gan blant/canolbwyntio ar blant**
Dylai cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ganolbwyntio mwy ar ddiddordebau, datblygiad a dysgu plant yn hytrach na'r cwricwlwm a deilliannau rhagderfynedig. Mae'n bwysig nodi bod rhaid i'r cwricwlwm a gynlluniwyd gael strwythur ac amcanion dysgu clir ond bod yn ddigon hyblyg i alluogi plant i ddilyn eu diddordebau a diwallu eu hanghenion.

Dylai arsylwi'n ofalus ar y cwricwlwm a gynlluniwyd a sut mae'r plant yn ymateb iddo ddarparu tystiolaeth i ddangos a yw'r plant yn canolbwyntio ar eu dysgu ac nid yn chwarae'n ddibwrpas. Mae dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu hestyn yn eu dysgu.

**Ymarferwyr**
Mae'r term generig hwn yn cyfeirio at yr oedolion sy'n gweithio gyda phlant yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnwys athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y sector a gynhelir, a staff sy'n gweithio yn y lleoliadau addysg a ariennir yn y sector nas cynhelir.

# Cydnabyddiaethau

Hoffai Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14 yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) ddiolch i'r holl blant, ymarferwyr, rhieni, gofalwyr, lleoliadau, ysgolion a sefydliadau eraill sydd wedi helpu i gynhyrchu'r ddogfen hon, gan gynnwys:

Ysgol Feithrin Parc Caia, Wrecsam

Cylch Meithrin y Bontfaen, Bro Morgannwg

Ysgol Gynradd Pontllanffraith, Caerffili

Cylch Chwarae'r Pentref, Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol y Gogarth, Llandudno, Conwy

Ysgol y Llys, Prestatyn, Sir Ddinbych.